

Pleidleisio drwy ddirprwy

Mae pleidleisio drwy ddirprwy yn golygu os na allwch fwrw eich pleidlais yn bersonol, y gallwch gael rhywun rydych yn ymddiried ynddo i wneud hynny ar eich rhan.

Os na allwch fynd i'r orsaf pleidleisio yn bersonol am resymau'n ymwneud â'ch galwedigaeth, eich gwasanaeth neu'ch cyflogaeth, a'ch bod ond wedi dod yn ymwybodol o hyn **ar ôl 5pm, ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais**, gallwch wneud cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy (rhywun arall yn pleidleisio ar eich rhan). Gallwch wneud cais tan **5pm ar y diwrnod pleidleisio**.

Ni ddylai'r ffurflen hon gael ei defnyddio os ydych wedi'ch cadw mewn ysbyty o dan Adran 145 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yng Nghymru a Lloegr neu Adran 329 o Ddeddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (yr Alban) 2003 yn yr Alban.

Yng Nghymru a Lloegr rhaid eich bod yn 18 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio i fwrw pleidlais.

Yn yr Alban rhaid eich bod yn 16 oed neu drosodd ar y diwrnod pleidleisio mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban. Rhaid eich bod yn 18 oed neu drosodd mewn etholiadau i Senedd y DU a Senedd Ewrop.

Sut ydw i'n gwneud cais i bleidleisio drwy ddirprwy?

- Rhaid i chi ofyn i rywun sy'n barod i fod yn ddirprwy ar eich rhan a phleidleisio drosoch, ac sy'n gallu gwneud hynny.
- Oni bai eich bod wedi'ch cofrestru fel pleidleisiwr o'r Lluoedd Arfog, rhaid i chi gael unigolyn priodol i lofnodi eich cais. Gweler y nodiadau isod am wybodaeth am bwy all ategu eich cais.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn cwblhau pob rhan o'r ffurflen ac yn rhoi eich dyddiad geni a'ch llofnod. Bydd angen i chi roi eich dyddiad geni a'ch llofnod ar y ffurflen gais hon. Mae angen y wybodaeth hon er mwyn atal twyll. Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.
- Dylech ddychwelyd eich ffurflen i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. **Mae'r manylion a rhagor o wybodaeth ar gael yn dyleidlaisdi.co.uk**

Peidiwch â dychwelyd eich ffurflen i'r Comisiwn Etholiadol. Gall y ffurflen hon ond cael ei defnyddio **ar ôl 5pm, ar y chweched diwrnod gwaith cyn y bleidlais** a rhaid iddi gyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol **cyn 5pm ar y diwrnod pleidleisio**.

Os nad ydych eisoes wedi cofrestru i bleidleisio, rhaid bod eich cais i gofrestru wedi cyrraedd eich swyddfa cofrestru etholiadol erbyn **hanner nos, 12 diwrnod gwaith cyn y bleidlais**.

Nid yw'r ffurflen hon na'r terfynau amser hyn yn gymwys i Ogledd Iwerddon. Ewch i eoni.org.uk am ragor o wybodaeth.

Pwy all ategu fy nghais?

- **Rwy'n hunangyflogedig. Pwy all ategu fy nghais?** Rhywun 18 oed neu drosodd sy'n eich adnabod ac nad yw'n ŵr neu wraig, partner sifil, rhiant, mam-gu neu dad-cu, brawd, chwaer, plentyn neu wŷr neu wyres i chi. Bydd angen i'r unigolyn gwblhau adran 8 o'r ffurflen.
Yn yr Alban, mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban, gall y sawl sy'n ategu eich cais hefyd fod yn rhywun 16 neu 17 oed, sy'n eich adnabod ac nad yw'n ŵr neu wraig, partner sifil, brawd, chwaer, plentyn neu wŷr neu wyres i chi. Bydd angen i'r unigolyn gwblhau adran 10 o'r ffurflen.
- **Rwy'n gyflogedig, pwy all ategu fy nghais?** Eich cyflogwr neu rywun awdurdodedig arall yn eich gweithle. Bydd angen i'r unigolyn gwblhau adran 9 o'r ffurflen.
- **Rwyf wedi cofrestru fel pleidleisiwr o'r Lluoedd Arfog. Pwy all ategu fy nghais?** Os ydych yn aelod o'r Lluoedd Arfog, gwas y Goron, un o gyflogeion British Council, neu'n ŵr neu wraig neu bartner sifil un o'r uchod, neu yn yr Alban, yn blentyn un o'r uchod, a'ch bod wedi cofrestru fel pleidleisiwr o'r Lluoedd Arfog, nid oes angen i'ch cais gael ei ategu.
- **Rwyf wedi cofrestru'n ddiennw. Pwy all ategu fy nghais?** Os ydych wedi cofrestru fel etholwr diennw, nid oes angen i neb ategu eich cais.

Cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy ar sail galwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth

Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi ddychwelyd y ffurflen hon?

- Rhaid i'ch dirprwy fynd i'ch gorsaf bleidleisio leol i bleidleisio ar eich rhan.
- Dylech ddweud wrth eich dirprwy sut rydych am iddo bleidleisio ar eich rhan, er enghraifft, pa ymgeisydd, plaid neu ganlyniad.
- Bydd tîm etholiadau eich cyngor yn dweud wrth eich dirprwy pryd a ble i bleidleisio ar eich rhan.

Pleidleisio fel dirprwy

Gall person ond bod yn ddirprwy ar ran perthnasau agos ac ar gyfer hyd at ddau berson arall mewn etholiad neu refferendwm.

Perthnasau agos yw gŵr/gwraig, partner sifil, rhiant, tad-cu/mam-gu, brawd, chwaer, plentyn neu wŷyr/wyres yr ymgeisydd.

Gall y sawl rydych yn ei wneud yn ddirprwy ond gweithredu ar eich rhan os yw'n 18 oed neu drosodd (16 neu drosodd yn yr Alban mewn etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban) ac mae wedi'i gofrestru (neu y bydd wedi'i gofrestru) ar gyfer yr etholiad neu'r refferendwm hwnnw.

Datganiad preifatrwydd

Bydd y Swyddog Cofrestru Etholiadol ond yn defnyddio'r wybodaeth a rowch iddo at ddibenion etholiadol. Bydd yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel ac yn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data. Ni fydd yn rhannu gwybodaeth bersonol amdanoch chi nac unrhyw wybodaeth bersonol y byddwch yn ei darparu am bobl eraill o bosibl ag unrhyw unigolyn na sefydliad arall oni bai bod yn rhaid iddo yn ôl y gyfraith.

Sail gyfreithiol casglu'r wybodaeth yn y ffurflen hon yw bod ei hangen er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd ac arfer awdurdod swyddogol a roddir i Swyddog Cofrestru Etholiadol fel y nodir yn Neddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a'r rheoliadau cysylltiedig.

Y Swyddog Cofrestru Etholiadol yw'r Rheolydd Data. I gael rhagor o wybodaeth am brosesu data personol, dylech gyfeirio at ei hysbyseb preifatrwydd ar ei wefan. Mae cyfeiriad ei wefan a'r manylion cyswllt ar gael yn dyleidlaisdi.co.uk

Cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy ar sail galwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth

Dim ond un person a all wneud cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy gan ddefnyddio'r ffurflen hon

Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddiwch BRIFLYTHRENNAU. Pan fyddwch wedi cwblhau pob adran a llofnodi'r ffurflen eich hun, anfonwch hi i'ch swyddfa cofrestru etholiadol. Mae ei chyfeiriad yn dybleidlaisdi.co.uk

1 Amdanoch chi

Cyfenw

Enw(au) cyntaf (yn llawn)

Eich cyfeiriad (ble rydych wedi cofrestru i bleidleisio)

Cod post/BFPO

Eich cyfeiriad gohebiaeth (os yw'n wahanol)

Cod post/BFPO

Rhif ffôn (dewisol)

E-bost (dewisol)

Mae nodi eich cyfeiriad e-bost a'ch rhif ffôn yn rhoi ffordd gyflym a hawdd i ni gysylltu â chi ynglŷn â'ch cais.

2 Ynglŷn â'ch dirprwy (y sawl rydych wedi'i ddewis i bleidleisio ar eich rhan)

Enw llawn

Perthynas deuluol (os o gwbl)

Cyfeiriad llawn

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

3 Ym mha etholiad(au) a refferendwm/refferenda yr hoffech gael dirprwy?

Hoffwn bleidleisio drwy ddirprwy yn yr etholiad(au) a refferendwm/refferenda a gynhelir ar:

<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
D	D	M	M	B	B B B

Cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy ar sail galwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth

4 Eich manylion cyflogaeth a'r rheswm pam na allwch bleidleisio yn bersonol

Llenwch Adran 4A os ydych yn hunangyflogedig, Adran 4B os ydych yn gyflogedig, neu Adran 4C os ydych yn bleidleisiwr o'r Lluoedd Arfog.

4A – Rwy'n hunangyflogedig fel (nodwch deitl eich swydd):

Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio am y rheswm canlynol sy'n ymwneud â'm galwedigaeth:

4B – Rwy'n cael fy nghyflogi gan (rhoch enw a chyfeiriad y cyflogwr):

Fel (nodwch deitl y swydd):

Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio am y rheswm canlynol sy'n ymwneud â'm cyflogaeth:

4C – Ticiwch y math o bleidleisiwr gwasanaeth sy'n gymwys:

- Rwy'n aelod o'r Lluoedd Arfog
- Rwy'n was y Goron
- Rwy'n un o gyflogeion British Council
- Rwy'n wŷr neu wraig neu bartner sifil un o'r uchod, neu yn yr Alban, yn blentyn un o'r uchod

Ni allaf fynd i'r orsaf bleidleisio ar y diwrnod pleidleisio am y rheswm canlynol sy'n ymwneud â'm gwasanaeth (neu wasanaeth fy ngŵr neu wraig, partner sifil neu riant neu warcheidwad):

5 Pryd y daethoch yn ymwybodol o'r rheswm?

Amser:

Dyddiad

D D M M B B B B

6 Eich dyddiad geni a datganiad

Datganiad: Rwyf wedi gofyn i'r unigolyn rwyf wedi'i enwi'n ddirprwy a gallaf gadarnhau ei fod yn barod i bleidleisio ar fy rhan ac y gall wneud hynny.

Hyd y gwn i, mae'r manylion ar y ffurflen hon yn wir ac yn gywir. Deallaf ei bod yn drosedd rhoi gwybodaeth anwir ar y ffurflen hon, ac y gallwn gael fy ngharcharu am hyd at ddwy flynedd a/neu gael dirwy.

Dyddiad geni: Nodwch eich dyddiad geni yn y blychau isod gan ddefnyddio inc du.

D D M M B B B B

Llofnod: Llofnodwch isod gan ddefnyddio inc du, gan gadw o fewn y llinellau llwyd.

Os na allwch lofnodi'r ffurflen hon, cysylltwch â'ch swyddfa cofrestru etholiadol.

7 Dyddiad y cais

Dyddiad heddiw

D D M M B B B B

Cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy ar sail galwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth

Ategu eich cais

Os ydych yn hunangyflogedig, dylai'r sawl sy'n ategu eich cais gwblhau adran 8.

Os ydych yn gyflogedig, dylai eich cyflogwr, neu unigolyn a awdurdodwyd ar eich rhan, gwblhau adran 9.

Mae adran 10 ond yn berthnasol yn yr Alban, a dylai ond cael ei chwblhau os ydych yn hunangyflogedig a bod y sawl sy'n ategu eich cais yn 16 neu 17 oed ac mae ond ar gyfer etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban.

Os ydych wedi cofrestru i bleidleisio fel pleidleisiwr o'r Lluoedd Arfog neu etholwr dienw, nid oes angen i neb ategu eich cais.

8 Datganiad y sawl sy'n ategu'r cais (os yw'r ymgeisydd yn hunangyflogedig)

Darllenwch y nodiadau er mwyn gweld pwy all ategu'r cais hwn. Gofynnwch i'r sawl sy'n ategu eich cais roi ei enw a chyfeiriad.

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad y sawl sy'n ategu eich cais

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

Datganiad:

- Rwy'n 18 oed neu drosodd
- Rwy'n adnabod yr ymgeisydd
- Nid fi yw gŵr/gwraig, partner sifil, rhiant, tad-cu/mam-gu, brawd/chwaer, plentyn nac ŵyr/wyres yr ymgeisydd
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn Rhannau 4A a 5 yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B B B B

9 Datganiad y cyflogwr (os yw'r ymgeisydd yn gyflogedig)

Darllenwch y nodiadau er mwyn gweld pwy all ategu'r cais hwn. Gofynnwch i'r sawl sydd wedi'i awdurdodi i ategu eich cais roi ei enw, cyfeiriad a rôl.

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad y sawl sy'n ategu eich cais

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

Rôl y sawl sy'n ategu'r cais gyda'r cyflogwr

Datganiad:

- Fi yw cyflogwr yr ymgeisydd neu rwy'n gyflogai â'r awdurdod i weithredu ar ran y cyflogwr
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn Rhannau 4B a 5 yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B B B B

Cais am bleidlais argyfwng drwy ddirprwy ar sail galwedigaeth, gwasanaeth neu gyflogaeth

Yr Alban yn unig: datganiad gan unigolyn 16 neu 17 oed sy'n ategu cais (ar gyfer etholiadau lleol ac etholiadau i Senedd yr Alban yn unig). Cwblhewch ddatganiad 8 neu 9 os yw'r sawl sy'n ategu eich cais yn 18 oed neu drosodd.

10 Datganiad gan unigolyn 16 neu 17 oed sy'n ategu eich cais (os yw'r ymgeisydd yn hunangyflogedig)

Darllenwch y nodiadau er mwyn gweld pwy all ategu'r cais hwn. Gofynnwch i'r sawl sy'n ategu eich cais roi ei enw a chyfeiriad.

Enw llawn y sawl sy'n ategu eich cais

Cyfeiriad y sawl sy'n ategu eich cais

Cod post

Cyfeiriad e-bost neu rif ffôn (dewisol)

Datganiad:

- Rwy'n 16 neu'n 17 oed
- Rwy'n adnabod yr ymgeisydd
- Nid fi yw gŵr/gwraig, partner sifil, rhiant, tad-cu/mam-gu, brawd/chwaer, plentyn nac ŵyr/wyres yr ymgeisydd
- Rwy'n cadarnhau, hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, fod datganiadau'r ymgeisydd yn Rhannau 4A a 5 yn wir.

Llofnod

Dyddiad heddiw

<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>	<input type="text"/>
D	D	M	M	B	B	B	B